

Digimap for Schools

Ditectifs y Gymdogaeth

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Ditectifs y Gymdogaeth

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Cymdogaethau Gwrthgyferbyniol	Defnyddir Leysdown-on-Sea, Kent, a Phrestatyn, Sir Ddinbych, Gogledd Cymru, ond mae'n bosibl defnyddio'r gweithgaredd hwn ar gyfer unrhyw le ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth	Adnabod ac enwi nodweddion ar fap. Anodi gan ddefnyddio symbolau a marcwyr. Ychwanegu labeli. Disgrifio a chymharu lleoedd.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio mapio digidol/cyfrifiadur i ddod o hyd i nodweddion a astudiwyd a'u disgrifio; disgrifio a deall agweddau allweddol daeryddiaeth ddynol a ffisegol
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Amlygu'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a gwrthgyferbynnu rhwng lleoedd ac amgylcheddau.
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 2-13a, 2-14a

Gweithgaredd

Adnabod nodweddion yr ardal leol ac ardal arall a'u cymharu nhw. Wedyn, gwneud mapiau i ddangos yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol.

Cyflwyniad

Mae Leysdown-on-Sea a Phrestatyn yn drefi glan môr. Fodd bynnag, mae Leysdown yr un maint â phentref mawr, tra bod Prestatyn yn dref gyda phoblogaeth lawer yn fwy. Defnyddiwch *Digimap for Schools* i alluogi'r disgyblion i'w harchwilio yn agos, ac ar raddfeydd eraill, a gweld pa mor debyg neu wahanol yw'r lleoedd hyn.

Dylech ddefnyddio eich cymdogaeth leol yn y gweithgaredd hwn a'i chymharu â lle arall, gwrthgyferbyniol, o'ch dewis. Defnyddir y ddau le yma fel enghreifftiau i ddangos sut mae'n bosibl mynd i'r afael â'r gweithgaredd. Mae'r gweithgaredd yn cynnig cyfle i wneud gwaith maes oherwydd bod modd gwneud hynny cyn dechrau neu ar ôl gorffen a gweld beth mae'r disgyblion yn ei wybod neu wedi'i ddysgu.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif weithgaredd

Pa mor dda ydych chi'n adnabod eich ardal? Beth yw nodweddion yr ardal? Pa fath o nodweddion dynol a nodweddion naturiol sydd yn yr ardal? Lluniwch restr o'ch cof.

Mae mapiau yn cynnwys llawer o wybodaeth, os gallwn fod yn dditectifs a dod o hyd i'r cliwiau. Modelwch fod yn dditectif map gan ddefnyddio *Digimap for Schools* ar fwrdd gwyn rhyngweithiol (BGRh). Heriwch y disgyblion i amlygu ac enwi cymaint o nodweddion ag sy'n bosibl mewn munud, gan ddefnyddio'r offeryn graddfa ac allwedd lle bo hynny'n briodol. Lluniwch restr a'i chymharu i ganlyniadau'r sesiwn taflu syniadau gwreiddiol.

Unwaith mae'r disgyblion yn hyderus o'u gwybodaeth o nodweddion lleol – byddant fwy na thebyg yn gyfarwydd â'r rhan fwyaf ohonynt – symudwch ymlaen i edrych ar y gymdogaeth wrthygyferbyniol rydych chi wedi'i dewis. Cynhaliwch sesiwn taflu syniadau i ddechrau o ran pa nodweddion mae'r disgyblion yn meddwl y byddant yn dod o hyd iddynt yn yr ardal cyn edrych ar fap o'r gymdogaeth.

Tasgau

Cadwch fap gwreiddiol eich ardal leol ar y BGRh i'r disgyblion allu cyfeirio ato, neu argraffwch gopïau ar eu cyfer. Gall y disgyblion weithio'n annibynnol, mewn parau neu mewn grwpiau bychan, yn dibynnu ar eu gallu.

1. Gofynnwch i'r disgyblion agor map o ardal benodol, yn unol â'ch cyfarwyddyd. Atgoffwch nhw fod modd closio mewn at y map i weld y nodweddion, a chofiwch defnyddio'r Allwedd i'w cynorthwyo nhw i adnabod symbolau. Dylent gymryd nodiadau ac adrodd yn ôl.

Rhowch derfyn amser iddynt a chynhaliwch gystadleuaeth i weld pwy sy'n gallu dod o hyd i'r mwyaf o nodweddion. Dyma enghraifft o restrau a luniwyd gan un disgybl.

Leysdown

Traeth (caregog)
Môr
Maes carafannau
Tai
Siopau
Ffyrdd
Tafarn
Maes chwarae
Parc
Gorsaf heddlu
Grwynau

Prestatyn

Traeth (tywodlyd)
Môr
Maes carafannau
Tai
Siopau
Ffyrdd
Tafarn
Maes chwarae
Parc
Gorsaf heddlu
Twyni tywod
Grwynau
Gwesty
Gorsaf drenau
Gorsaf dân

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

2. Gofynnwch i'r disgyblion ychwanegu eiconau a labeli o wahanol liwiau at y map er mwyn pwysleisio rhai o'r prif bethau sy'n debyg ac yn wahanol i'ch ardal leol. Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*), dewis 'Place Marker' a dethol eicon priodol i ddangos y nodweddion sy'n debyg rhwng y ddau le. Cliciwch ar y nodweddion ar y map i'w hychwanegu.



Dewiswch eicon gwahanol i ddangos nodweddion sy'n wahanol a chliciwch er mwyn ychwanegu marcwyr i'r rhain hefyd.

Wedyn, dewiswch faint, lliw a maint y ffont a defnyddio 'Place Label'. Cliciwch wrth ochr y nodweddion sydd wedi'u marcio i'w henwi nhw.



Mae'n bosibl y bydd angen symud labeli er mwyn i chi allu eu gweld nhw mor glir ag sy'n bosibl. Dewiswch 'Move Feature' o adran 'Modify' y bar offer i glicio a llusgo'r labeli.


Os oes yna ofod ar y map, ychwanegwch allwedd i ddangos pa farcwyr sy'n dangos y nodweddion tebyg a'r nodweddion gwahanol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

3. Rhowch deitl i'r map a'i gadw.

Rhai pethau tebyg rhwng Prestatyn a Leysdown



Mae'n bosibl y bydd y taflenni gwaith yn ddefnyddiol i helpu'r disgyblion i drefnu'r nodweddion tebyg a'r nodweddion gwahanol. Gallwch ofyn i rai o'r disgyblion wneud hynny tra bod eraill yn gwneud eu mapiau.

Trafodwch yr hyn rydych chi wedi ei ddarganfod ar ôl archwilio'r mapiau gyda'r dosbarth. Er enghraifft, sut mae'r lleoedd yn cymharu o ran maint? Defnyddiwch dermau fel pentref, pentrefan, tref neu ddinas. Pa resymau sy'n esbonio rhai o'r pethau tebyg a gwahanol am y ddau le?

Gellir ailadrodd y syniad hwn gan ddefnyddio nifer o leoedd gwahanol ac awgrymiadau'r disgyblion.

Mynd ymhellach

- Y disgyblion i greu cwis am y ddau le. Defnyddiwch hwn fel gweithgaredd asesu i brofi'r dosbarth cyfan.
- Crëwch hysbyseb i ddenu pobl i ddod i fyw mewn lle penodol neu i ddod ar eu gwyliau yno. Sgriptiwch, perfformiwch a ffilmiwch yr hysbyseb.
- Defnyddiwch Twitter i drydar prif nodweddion lle penodol. Penderfynwch ar y nodweddion pwysicaf o flaen llaw gan mai nifer gyfyngedig o lythrennau sydd gennych i'w defnyddio.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

- Sefydlwch ddolen blogio gydag ysgol arall ac anfonwch fapiau a gwybodaeth am eich ardal leol at eich gilydd.
- Dechreuwch 'Broffil o Le' un ai fel llyfr ysgrifenedig neu ddogfen ar-lein. Penderfynwch ar y penawdau pwysicaf, gan gynnwys lle gwahanol ar bob tudalen a darlunio'r prif nodweddion. Gwnewch fap o'r holl leoedd rydych chi wedi rhoi sylw iddynt a'i ddiweddarau pan fyddwch yn ychwanegu mwy.
- Archwiliwch pa fath o swyddi mae pobl yn eu gwneud yn y lleoedd hyn a gofynnwch am y cysylltiadau sy'n bodoli rhwng swyddi a nodweddion lleoedd penodol.
- Defnyddiwch restr o brif nodweddion eich ardal leol a gweld a allwch chi ddod o hyd i le sy'n debyg iawn i'ch un chi.

Lluniwch restr o nodweddion gwrthgyferbyniol, e.e. arfordirol – mewndirol, mynyddig – gwastad, gwledig – dinesig ac ati, a defnyddiwch y meini prawf newydd hyn y ddod o hyd i le sy'n wahanol iawn i'ch ardal chi.

Dolenni

Mae gan *Geograph* dros 3.6 miliwn o ffotograffau o Brydain Fawr ac mae modd chwilio amdanynt fesul termau daearyddol a lleoliad: <http://schools.geograph.org.uk/>

Y DU mewn delweddau: <http://www.uk-photos.co.uk/>

Prosiect *Making Geography Happen*: deall yr ardal leol
www.geography.org.uk/projects/makinggeographyhappen/understandingthelocalarea/thegeography

Gwybodaeth cysylltu ag ysgolion: www.schoolslinkingnetwork.org.uk/

Golygfeydd stryd a delweddau o'r awyr: www.google.com www.bing.com/maps

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Comparison between _____ and _____

Different features at _____

Different features at _____

The same

Name: _____

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Draw or write some of the similarities and differences between these places

Name: _____

